

Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Adroddiad Effaith Blynyddol

2023-24

# Cynnwys


3 Ein cylchred strategol

4 Ein cenhadaeth

5 Swyddogion Sabothol

6 Buddugoliaethau i fyfyrwyr

7 Gwobrau

8 Prif Weithredwr

9 Llywydd Undeb y Myfyrwyr

10 Ymgysylltiad a boddhad

12 Cymuned Caerdydd

13 Bywyd academaidd

14 Profiadau myfyrwyr

15 Lles a'r dyfodol

16 Adnoddau

17 Pobl

18 Digidol a data

19 Cyllid

20 Ymddiriedolwyr 2023 - 24


Calon bywyd myfywyr Caerdydd

# Ein cylchred strategol

**Yn 2021 fe wnaethom lansio ein Cynllun Strategol newydd sy'n berthnasol hyd at 2025. Y flwyddyn academaidd hon oedd yr olaf ond un o'r cylchred pum mlynedd a gwnaeth adeiladu ar y gwaith a ddigwyddodd yn 2022-23.**

## Ein Strategaeth

Nod y strategaeth yw ailadeiladu gweithgareddau a gwasanaethau i'r un lefelau o ymgysylltiad, incwm, a boddhad cwsmeriaid â chyn y pandemig, tra'n cydnabod na fydd popeth yn dychwelyd yn gyflym oherwydd diffyg cof cysylltiadol ymysg myfyrwyr a gwahanol ddisgwyliadau wedi Covid-19.

Mae gan y strategaeth hon fwy o ffocws ar les myfyrwyr a gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd myfyrwyr, a effeithiwyd arnynt yn ystod y pandemig a'r cyfnodau clo cysylltiedig.

Roedd 2023-24 yn flwyddyn wych arall ar gyfer ymgysylltiad myfyrwyr a llwyddiant masnachol. Wrth i ni symud ymhellach o'r pandemig, rydym wedi parhau i gynnal ein holl ddigwyddiadau a gwasanaethau anhygoel ar gyfer myfyrwyr, ac wedi gweld pethau'n tyfu'n fwy a'n well nag erioed o'r blaen.



# Ein cenhadaeth

## Arweinyddiaeth myfyrwyr

- Byddwn yn sicrhau bod myfyrwyr yn rhan o wneud penderfyniadau ar draws pob lefel o'r sefydliad a'u bod yn teimlo wedi'u grymuso i greu newid.

## Cynhwysiant

- Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu gyda'n holl fyfyrwyr, trwy leihau'r rhwystrau i gyfranogiad ac estyn allan at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

## Partneriaethau

- Byddwn yn sicrhau ein bod yn datblygu partneriaethau effeithiol gyda sefydliadau sy'n ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol, o Brifysgol Caerdydd, y gymuned ehangach, a'r sector undebau myfyrwyr.

## Amrywiaeth

- Byddwn yn dathlu amrywiaeth ein staff a myfyrwyr, ac yn cefnogi myfyrwyr i fod yn llais dros newid wrth herio anghyfiawnderau o fewn addysg a chymdeithas.



# Swyddogion Sabothol 23-24



# Buddugoliaethau i fyfyrwyr

Pob blwyddyn, mae ein myfyrwyr yn ethol tîm o fyfyrwyr i'w cynrychioli nhw a'u buddiannau academaidd. Mae'r Swyddogion Etholedig yn gweithio ar lawer o brosiectau trwy gydol y flwyddyn, o lobïo'r Brifysgol am newid a gwelliannau, i ymgyrchu ar faterion pwysig megis llety ac iechyd meddwl, a chynrychioli eich llais fel myfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd.

- Gwnaethom gyflwyno Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd ac Ymyrryd Mewn Sefyllfaoedd Niweidiol, ynghyd â gweithio tuag at Hyfforddiant Lles ar gyfer timoedd IMG y Brifysgol.

- Gwnaethom sicrhau bod cytundebau Tiwtoriaid ac Arddangoswyr Graddedig yn cael eu gweithredu ymhob ysgol, a herio'r rheiny nad oedd yn cydymffurfio.

- Gwnaethom groesawu ein IL Iaith, Cymuned, a Diwylliant Cymru cyntaf i gynrychioli myfyrwyr Cymraeg a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

- Gwnaethom gyflwyno citiau profi STI a beichiogrwydd am ddim yn Undeb y Myfyrwyr, gan alluogi myfyrwyr i fod yn weithredol wrth ofalu am eu hiechyd rhywiol.

- Gwnaethom lobïo'r Brifysgol ar atal trais ac aflonyddu rhywiol ar y campws a sefydlu Gweithgor Myfyrwyr i Fynd i'r Afael Â Thrais Rhywiol.

- Gwnaethom lobïo'r Brifysgol am gynllun mentora YÔR traws-brifysgol, sydd i'w lansio ym mis Hydref 2024.

- Gwnaethom gynyddu'r uchafswm o fenthyciadau llyfrgell o 35 i 50 ar gyfer myfyrwyr a staff.

- Gwnaethom gynnal Ymgyrch Gofalu Gyda'r Gaeaf i fynd i'r afael ag iselder yn ystod y Gaeaf. Gwnaethom gynnal digwyddiadau, cyfeirio, darparu adnoddau hanfodol, a recordio podlediad am ein profiadau gydag iechyd meddwl a straen arholiadau yn y gaeaf.

- Gwnaethom helpu greu Cronfa Hunaniaeth Rhywedd newydd, gan ddarparu mynediad i fyfyrwyr traws ac anneuaidd at gynnyrch a gofal cadarnhau rhywedd. Dyma'r cyntaf o'i math ym Mhrifysgol Caerdydd ac rydym yn edrych ymlaen at ei gweld yn cael ei defnyddio gan ein myfyrwyr cwiar.

# Gwobrau

Ar ôl 9 mlynedd wedi ein pleidleisio fel un o 10 Undeb Myfyrwyr Gorau'r DU - a'r gorau yng Nghymru - gwnaeth Undeb Myfyrwyr Caerdydd (UMC) dathlu ei drydedd flwyddyn yn olynol fel un o'r ddau gorau yng Ngwobrau Dewis y Myfyrwyr WhatUni. Mae'r cyflawniad hwn yn amlygu rôl allweddol UMC o fewn bywyd y myfyrwyr yma yng Nghaerdydd.

Mae UMC yn falch o fod wedi'i leoli ym mhrifddinas Cymru ac fel sefydliad rydym yn gweithio i gael effaith gadarnhaol ar Gaerdydd a'i chymuned. Roeddem yn falch cyrraedd y rhestr fer ar gyfer dau gategori yng Ngwobrau Bywyd Caerdydd 2024: Bar a Thafarn, a Dinesig. Mae'n fraint i sefydliad cael ei gydnabod am ei gyfraniadau i wella Caerdydd a chyfoethogi adloniant y ddinas.



Yn ogystal â'r gydnabyddiaeth hon, mae UMC yn parhau i ragori mewn chwaraeon, sy'n enwedig o nodedig gan nad yw Prifysgol Caerdydd yn cynnig unrhyw gyrsiau academaidd yn ymwneud â chwaraeon neu ymarfer corff. Cyrhaeddom safle 11 yn nhabl Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS), gan ddod yn agosach at gyrraedd y 10 uchaf na blynyddoedd diweddar. Mae hefyd gwerth nodi taw UMC yw'r sefydliad uchaf yng Nghymru a'r gorau ymhlith y rheiny heb raglenni academaidd perthnasol.

Cafodd ein gwirfoddolwyr cyfryngau myfyrwyr flwyddyn ffantastig hefyd, gan ennill gwobrau sylweddol ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol. Enillodd Xpress Radio 4 gwobr yng Ngwobrau Cenedlaethol Radio Myfyrwyr 2024, gan gynnwys aur ar gyfer y Rhaglennu Podlediad Gorau, arian ar gyfer y Rhaglennu Chwaraeon Gorau, ac efydd ar gyfer yr Orsaf Radio Myfyrwyr Gorau. Enillodd Gair Rhydd, ein papur newyddion myfyrwyr Cyhoeddiad Gorau yng Ngwobrau Rhanbarthol y Gymdeithas Cyhoeddiadau Myfyrwyr 2024, a derbyniodd cylchgrawn Quench gwobrau am y Ffotograffydd Gorau a Chyhoeddiad Diwylliant Gorau yng Ngwobrau Cenedlaethol y Gymdeithas Cyhoeddiadau Myfyrwyr 2024.

# Prif Weithredwr

Rydym yn gweithio'n ddiflino i wella profiadau myfyrwyr a chynyddu bodlonrwydd, felly mae'n wych gweld boddhad yn codi i 92% a'r Undeb yn cadw ei safle fel yr 2il orau yn y DU am y 3ydd flwyddyn yn olynol. Rydym yn cyflawni ein llwyddiant trwy ddod â myfyrwyr a staff ynghyd, ac mae ymgysylltiad ein staff yn parhau i fod yn uchel gyda 91% yn dweud y byddent yn argymell Undeb Myfyrwyr Caerdydd fel lle gwych i weithio.

Er yr heriau y mae myfyrwyr yn eu hwynebu yn y Brifysgol, maent eisiau profiadau amrywiol a chefnogaeth gan eu hundeb myfyrwyr, ochr yn ochr â'u hastudiaethau. Rydym yn falch iawn bod ein gweithgareddau a gwasanaethau wedi'u gwerthfawrogi gymaint gan ein myfyrwyr a byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn wrth i ni ddatblygu ein cynllun strategol ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

**Daniel Palmer**
**Prif Weithredwr**



# Llywydd Undeb y Myfyrwyr

Gwnaethom ddechrau'r flwyddyn gydag un o gyfnodau'r Glas mwyaf llwyddiannus eto. Daeth 21,000 o fyfyrwyr i'n 5 Ffair y Glas, gan dorri pob record flaenorol am bresenoldeb!

Roedd twrnamaint Varsity Cymru yn uchafbwynt arall, gyda miloedd o fyfyrwyr Caerdydd yn teithio i Abertawe i gefnogi athletwyr Caerdydd. Enillodd Caerdydd y darian unwaith eto, gyda buddugoliaeth ysgubol o 33.5 i 13.5.

Trwy gydol gweddill y flwyddyn, gwnaethom ymuno â myfyrwyr wrth ymgyrchu dros faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Rydym yn cydnabod bod hyn yn gyfnod anodd i lawer o fyfyrwyr, felly dyna pam gwnaethom ymgyrchu ynghylch heriau costau byw, diogelwch gyda'r nos, iechyd meddwl, cefnogaeth hunaniaeth rhywedd, ymwybyddiaeth iechyd rhywiol, a sefyll gyda chi yn ystod gweithredu diwydiannol, i enwi ond rhai.

Gwnaethom hefyd ddathlu ein menywod anhygoel yn ystod Mis y Menywod, gorymdeithio yn Pride Caerdydd, dathlu Mis Hanes Pobl Ddu, hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli, ac eich annog i bleidleisio yn yr Etholiad Cyffredinol.

**Madison Hutchinson**
**Is-lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli 2023-24**
**Llywydd Undeb y Myfyrwyr 2024-25**



# Ymgysylltiad a boddhad

**Roedd y flwyddyn hon yn garreg filltir i ni, wrth i ni gyflawni ein ffigurau ymgysylltu uchaf erioed.**


## Ymgysylltiad

Cyrhaeddodd ein rhyngweithiadau cyfanswm sylweddol o 70,923 – cynnydd o 3.7% ers y llynedd - tra gwnaeth ymgysylltiadau unigryw gyrraedd 24,923, twf o 5.3%.

O ddigwyddiadau poblogaidd i ehangu ein canolfan gyngor, mae pob adran wedi cyfrannu at greu cymuned gynhwysol a bywiog. Mae twf sylweddol yn ein lleoliadau masnachol, cofrestriadau Siopswyddi, a'r nifer o fyfyrwyr sy'n sefyll yn ein hetholiadau yn arddangos y cyfleoedd amrywiol y mae myfyrwyr yn eu mwynhau, ac yn adlewyrchu ymrwymiad parhaol yr Undeb i gysylltu a grymuso pob myfyriwr.

Yn ein grwpiau myfyrwyr, gwelsom y nifer mwyaf o ymgysylltiadau mewn sawl ardal; o fewn Clybiau Chwaraeon bu 5,443 o fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, cynnydd o 3.7%.

Daeth 9,006 o fyfyrwyr yn aelodau o Gymdeithasau, cynnydd o 6.9% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a'r nifer fwyaf o gyfranogwyr erioed. Yn olaf, o fewn Rho Gynnig Arni gwelsom mwy o fyfyrwyr yn ymgysylltu, gyda chyfanswm o 5,475 myfyriwr unigryw yn cymryd rhan.



**Cyfanswm ymgysylltiadau :**
**70,923**
**3.7%**

**Ymgysylltiadau unigryw:**
**24,923**
**5.3%**

## Bodlonrwydd y Glas

Gwelodd 2023 y rhaglen y Glas fwyaf llwyddiannus hyd yma, gyda lefelau uchel o ymgysylltiad a bodlonrwydd. Gwnaeth dros 8,700 o fyfyrwyr unigryw mynychu digwyddiadau'r Glas, gyda dros 10,000 yn mynychu ffeiriau'r Glas. Yr amcanion ar gyfer 2023 oedd datblygu rhaglen gymdeithasol amrywiol, cefnogi myfyrwyr i ymgysylltu ac adeiladu cymunedau gyda myfyrwyr eraill, a chynnal mwy o ddigwyddiadau heb alcohol gyda ffocws ar brofiadau.

- 88.1% (i fyny o 83% 2022) wedi datgan eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn gyffredinol gyda digwyddiadau a gweithgareddau'r Glas Undeb y Myfyrwyr.
- 82.6% (i fyny o 75% 2022) wedi datgan bod Undeb y Myfyrwyr wedi'u helpu i ymgartrefu ym mywyd Prifysgol.

## Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr

Mae Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS) yn arolwg blynyddol wedi'i gwblhau gan fyfyrwyr israddedig yn eu blwyddyn olaf rhwng Ionawr ac Ebrill bob blwyddyn. Mae'r NSS yn arolwg sector cyfan a gwahoddir myfyrwyr ar draws y Deyrnas Unedig i gymryd rhan.

Sgoriodd Undeb y Myfyrwyr 78.86% eleni ar C25 (Pa mor dda mae'r Undeb Myfyrwyr yn cynrychioli diddordebau academaidd myfyrwyr?), gwelliant o 3.17% o 2023 pan wnaethom sgorio 75.69%.

Undeb y Myfyrwyr yw'r cwestiwn sy'n parhau i sgorio orau ar gyfer y Brifysgol, ac mae'n parhau i fod yr unig un sy'n sgorio'n sylweddol uwch na'r meincnod (70.5%).

Mae Undeb y Myfyrwyr yn ymddangos 2il ymysg y Grŵp Russel (tu ôl i UM Sheffield yn unig) ac 2il ymysg Prifysgolion Cymru (dim ond 0.01% tu ôl i Wrecsam).

# Cymuned Caerdydd

## Rydym yn gweithio i rymuso myfyrwyr i arwain a datblygu cyfleoedd i adeiladu eu cymunedau, gan flaenoriaethu datblygiad gweithgareddau sy'n tyfu aelodaeth amrywiol.

Roedd yn flwyddyn anferth arall ar gyfer chwaraeon myfyrwyr wrth i dwrnamaint Varsity Cymru dychwelyd i Abertawe, gyda 5,699 o fyfyrwyr yn teithio i gefnogi Tîm Caerdydd. Gwnaeth dros 500 o fyfyrwyr cystadlu mewn 48 gornest gyda Chaerdydd yn cadw tarian Varsity Cymru diolch i fuddugoliaeth o 33.5 i 13.5.

Bu rhaglen Rho Gynnig Arni yn boblogaidd iawn gyda'n myfyrwyr unwaith eto, o ran ymgysylltiad gyda'n teithiau (un diwrnod a dros nos) a sesiynau blasu grwpiau myfyrwyr. Gwnaethom gynnal 40 taith diwrnod, y nifer uchaf erioed, gyda dros 92% o docynnau'n cael eu gwerthu a sgôr bodlonrwydd o 8.7/10 ar gyfartaledd oddi wrth fynychwyr.

### Ymgysylltiad gweithgareddau mewn rhifau :

- 5,443 o fyfyrwyr yn ymuno â'r Undeb Athletau a dros 9,006 o fyfyrwyr yn ymuno ag Urdd y Cymdeithasau, gan gynrychioli'r ymgysylltiad mwyaf gyda gweithgareddau dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Roedd 12,549 o fyfyrwyr gwahanol yn rhan o'r Undeb Athletau ac Urdd y Cymdeithasau yn 2023-24.
- 120,000 o filltiroedd wedi'u gyrru gan ein grwpiau myfyrwyr (4.5 gwaith o amgylch y ddaear) mewn cerbydau wedi'u llogi ac ar les.
- 884 o gemau BUCS wedi'u chwarae, cynnydd o 57 o gymharu â 22-23.
- Gwnaeth ein tîm Rho Gynnig Arni werthu 1,998 o docynnau a gwnaeth 953 o fyfyrwyr gwahanol fynychu ein teithiau dydd.
- Gwnaeth y Clwb Rygbi Dynion codi dros £33,00 ar gyfer Movember, a chododd y Clwb Criced Menywod dros £1,400 ar gyfer Cymorth i Fenywod Caerdydd.

# Bywyd academaidd

**Un o amcanion UMC yw cefnogi myfyrwyr ymhob agwedd o'u bywyd academaidd, gan eu grymuso i siapio eu haddysg a darparu cefnogaeth pan eith pethau o le.**

Mae'r fenter Cynrychiolaeth Academaidd Myfyrwyr yn parhau i fod yn llwyddiant allweddol ar gyfer tîm Llais y Myfyrwyr. Mae ymgysylltiad wedi aros yn gyson ar tua 1,000, gyda hyn wedi'i weld fel yr uchafswm ar gyfer y cynllun gan nad oes llawer o rolau Cynrychiolaeth Academaidd Myfyrwyr heb eu llenwi ar draws y Brifysgol. Pob blwyddyn, mae'r nifer o Gynrychiolwyr Academaidd sy'n derbyn hyfforddiant yn parhau i wella, ac eleni gwelsom ymgysylltiad gwych gyda'r arolwg diwedd blwyddyn a'r system wobrwyo newydd a gyflwynwyd am y tro cyntaf.

Roedd yn flwyddyn gref ar gyfer democratiaeth fyfyrwyr yn UMC. Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) ym mis Tachwedd oedd un o'r mwyaf yn hanes yr Undeb, gyda 960 o fyfyrwyr yn llenwi'r Neuadd Fawr. Gwnaeth cyflwyniad proses pleidlais flaenoriaeth cynhyrchu cyffro ynghylch y CCB a'r cynigion cyn y digwyddiad. Gwnaeth Etholiadau'r Hydref hefyd gweld cynnydd mewn ymgysylltiad o gymharu â blynyddoedd blaenorol, tra gwnaeth Etholiadau'r Gwanwyn cynnal perfformiad cryf er cyfnod pleidleisio byrrach.

Yn y cyfamser, mae ein tîm Cyngor i Fyfyrwyr wedi bod yn brysur yn cefnogi myfyrwyr pan eith pethau o le, gyda 3,657 o fyfyrwyr yn derbyn cefnogaeth a chyngor annibynnol trwy'r gwasanaeth yn y flwyddyn ddiwethaf.

## Ymgysylltiad academaidd mewn rhifau :

- 999 o Gynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr wedi'u hethol i gynrychioli eu cyd-fyfyrwyr ac adrodd pryderon at staff Prifysgol trwy gyfarfodydd ffurfiol a gweithgarwch ychwanegol.
- 1,317 o fyfyrwyr wedi cyflwyno enwebiadau ar gyfer Gwobrau Cyfoethogi Bywyd y Myfyrwyr, cynnydd o fwy na 200 ar y flwyddyn flaenorol. Cafodd y gwobrau eu creu i gydnabod y staff a myfyrwyr ffantastig sy'n cyfrannu at brofiad myfyrwyr Caerdydd ac mae'n galonogol i weld cymaint o fyfyrwyr yn enwebu.
- 3,822 o ymholiadau cyngor ac achosion wedi'u prosesu gan ein tîm Cyngor i Fyfyrwyr.
- 960 o fyfyrwyr wedi mynychu ein CCB a chyflwynwyd 607 pleidlais flaenoriaeth i benderfynu pa gynigion byddai'n cael eu trafod.

# Profiadau myfyrwyr

**Mae UMC yn gweithio i ddarparu digwyddiadau a gwasanaethau rhagorol ar gyfer pob myfyriwr, gyda ffocws ar gynigion amrywiol trwy gydol y dydd a'r nos.**

Cafodd ein clwb nos Fercher, YOLO, blwyddyn anhygoel, gan ddenu dros 106,000 o fynychwyr i Undeb y Myfyrwyr o fis Medi i fis Mehefin.

Mae'r Taf, ein tafarn myfyrwyr, wedi bod yn hynod boblogaidd eleni, gan weld twf da ar draws ein cynigion nos Wener a Sadwrn arbennig. Gwnaethom hefyd gyflwyno gemau dartiau rhyngweithiol i wneud yr ardal yn fwy hwyl.

**Gwnaethom gyflawni ein presenoldeb uchaf yn Ffeiriau'r Glas, gyda dros 21 mil yn mynychu'r pum ffair ar draws pedwar diwrnod "**

Gwnaeth cerddoriaeth fyw eleni rhagori ar ein disgwyliadau, gyda 55 o ddigwyddiadau o gymharu â 51 y llynedd. Mae cau Neuadd Dewi Sant am gyfnod wedi ein galluogi i fanteisio ar y galw cynyddol am gerddoriaeth fyw a digwyddiadau unigryw.

Hefyd, gwnaeth gweithredu'r platfform Universe ein helpu i hybu gwerthiant tocynnau gan dros £10,000 ar gyfer hyrwyddwyr allanol.

Uchafbwynt eleni oedd twrnamaint Varsity Cymru. Teithiodd Tîm Caerdydd i Abertawe i gystadlu mewn dros 50 camp wahanol. Gyda dros 6,000 o fyfyrwyr Caerdydd yn eu cefnogi, gwnaeth ein timau ennill Tarian Varsity unwaith eto, gyda sgôr o 33.5 i 13.5.

## Gwasanaethau myfyrwyr mewn rhifau:

Gwnaethom gyflawni ein presenoldeb uchaf yn Ffeiriau'r Glas, gyda dros 21 mil yn mynychu'r pum ffair ar draws pedwar diwrnod.

Darparodd ein hasiant dai, Gosod Tai Myfyrwyr Caerdydd, llety ar gyfer 2,968 o fyfyrwyr yng Nghaerdydd.

Gwelodd Caru Caerdydd, siop Undeb y Myfyrwyr, cynnydd mawr mewn gwerthiant nwyddau yn ystod wythnos graddio, gan gyrraedd £64.4mil mewn incwm o gymharu â £50.3mil yn 2023.



# Lles a'r dyfodol

**Rydym yn gweithio'n rhagweithiol er mwyn gwrando ar anghenion myfyrwyr a'u cefnogi trwy gydol eu siwrnai brifysgol. Nod ein gweithgareddau yw grymuso myfyrwyr i ofalu am eu lles eu hunain ac eraill, ac rydym yn cefnogi myfyrwyr i ennill y sgiliau, gwybodaeth, a gwydnwch bydd eu hangen arnynt wrth ddarganfod eu lle yn y byd.**

Dychwelodd ein hymgyrch Bwydo Eich Fflat poblogaidd eleni. Nod yr ymgyrch a digwyddiadau cysylltiedig oedd cefnogi myfyrwyr trwy'r Argyfwng Costau Byw. Trwy gydol y flwyddyn, gwnaethom gynnal wyth digwyddiad ar draws y ddau gampws gan roi cyfle i fyfyrwyr cael mynediad at fwyd a hanfodion am ddim. Trwy'r gweithgarwch yma, cawsom 1,200 o bobl yn ymgysylltu a dywedodd myfyrwyr wrthym fod yr ymgyrch yn hynod ddefnyddiol gan eu bod yn cael trafferth gydag arian a chost bwyd. Yn ogystal â derbyn bwyd am ddim, cyfeiriwyd y myfyrwyr yma at wasanaethau cefnogaeth perthnasol yn y brifysgol.



Gwnaeth cyllid HEFCW ein galluogi i barhau gyda'n hymgyrch Urddas Mislif poblogaidd, sydd nawr yn ei drydedd flwyddyn yn Undeb y Myfyrwyr. Trwy'r ymgyrch hwn, rydym yn darparu nwyddau mislif cynaliadwy ar gyfer myfyrwyr sy'n mislifo, ynghyd â gwybodaeth ac arweiniad ar iechyd ac urddas mislif. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, ehangwyd yr ymgyrch i 10 mwy o ysgolion y Brifysgol, gan gynyddu hygyrchedd nwyddau mislif am ddim ar draws y campws. Prynwyd bron 10,000 o eitemau, gyda stondinau ymgyrchu a hyrwyddo hefyd yn cael eu cynnal.

# Adnoddau

**Mae adnoddau yn cynnwys sefydlogrwydd ariannol UMC ynghyd ag ardaloedd corfforol ac asedau gwnaethom eu datblygu ar gyfer mwynhad myfyrwyr. Gellir canfod adroddiadau ariannol ar dudalen 19.**

## Ein hadeilad

Yn ystod 2023-24, gwnaethom weithio i wella hygyrchedd ein hadeilad. Adnewyddwyd rheolwr y prif lifft teithwyr ym mis Ionawr a gafodd ei ailweirio, gan olygu taw unwaith yn unig wnaeth torri yn ystod 4 mis diwethaf y flwyddyn academaidd. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â'r dibynadwyedd a brofwyd cyn y gwaith yma, ac mae wedi helpu gwella profiadau ymwelwyr gydag anghenion hygyrchedd. Cwblhawyd cynnig wedi'i gostio ar gyfer ail lifft teithwyr, a gafodd ei gyflwyno i'r Brifysgol am gyllid ym mis Rhagfyr.

Roedd y cynnig yn llwyddiannus, ac mae gwaith nawr yn cael ei gwblhau i ddargyfeirio gwasanaethau presennol o ffordd y siafft lifft newydd. Mae disgwyl i'r lifft newydd fod yn barod erbyn Pasg 2025.

## Cynaliadwyedd

Cwblhawyd ein harchwiliad ynni ESOS sy'n cael ei gynnal pob pedair blynedd, gyda'r adeilad yn perfformio 24% yn well na Meincnod Campws Prifysgol CIBSE (244kWh / m2 vs 320kWh / m2).



Pobl

**Nod Undeb Myfyrwyr Caerdydd yw cael tîm grymus, ymgysylltiedig, a chyfartal ar draws staff a gwirfoddolwyr.**

- Gwnaethom gyflawni sgôr fodlonrwydd o 91% gan staff a gwblhaodd Arolwg Ymgysylltiad Gweithwyr UCM mewn ymateb i'r datganiad 'Byddem yn argymell y sefydliad yma fel lle gwych i weithio'.

**Byddem yn argymell y sefydliad yma fel lle gwych i weithio "**



# Digidol a data

**Ers y pandemig, rydym wedi mabwysiadu agwedd digidol yn gyntaf ar draws y sefydliad ac wedi parhau i adeiladu ar hyn yn ystod 2023-24.**

Gwnaethom dyfu dilynwyr ar Instagram, ein prif blatfform cymdeithasol, gan 27% ar draws y flwyddyn, gan gyrraedd 23.9mil o ddilynwyr. Gwnaethom hefyd gweld cynnydd o 55% yn ein dilynwyr ar TikTok yn 2023-24, gan gyrraedd 5mil o ddilynwyr erbyn diwedd Gorffennaf.

Cafodd ein gwefan flwyddyn gref arall, gyda thudalennau gwe yn cael eu hagor bron 8 miliwn o weithiau o Awst i Orffennaf.



# Cyllid

## Daeth cyfanswm incwm yr Undeb i £12,908,971 (2023 - £12,393,500) gyda chyfanswm gwariant o £12,835,212, (2023 - £12,643,876) yn ystod y flwyddyn.

Arweiniodd dirwyn y ddarpariaeth pensiwn ostyngol i ben debyd i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol o £(146,796) (2023- £(390,908)). Gwnaeth hyn arwain at gostau net o £(73,037) (2023 - £(641,284)). Mae hyn yn cynnwys gwarged cyfyngedig o £29,326 a diffyg anghyfyngedig o £(102,363).

Ar y 31ain o Orffennaf, daeth cronfeydd wrth gefn rhydd yr Undeb i £1,886,847 (2023 - £1,746,590) ac mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon bod gan yr Undeb sail ariannol gadarn i barhau i weithredu a chyflawni ei amcanion a gweithgareddau. Yn ogystal, roedd £72,934 (2023 - £43,608) pellach mewn cronfeydd cyfyngedig.

O fewn is-gwmni masnachu'r Undeb, Gwasanaethau Undeb Caerdydd Cyfyngedig, cynyddodd trosiant i £5,807,849 (2023 - £5,515,116) gan arwain at elw gros o £2,759,189 (2023 - £2,517,348).

Cynyddodd costau gweinyddol i £5,109,202 (2023 - £4,808,546) yn ystod y flwyddyn. Yn y pen draw, adroddodd yr is-gwmni masnachu colled o £(432,044) (2023 – elw £80,034).

Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd atebolrwydd pensiwn y cwmni masnachu i £4,625,233 (2023 - £4,821,724) o ganlyniad i ail-werthuso rhwymedigaethau yn y dyfodol ynghyd â chyfraniadau taliadau diffyg. Mae'r diffyg yn codi o rwymedigaethau'r cwmni yn y dyfodol tuag at Gynllun Pensiwn Undeb y Myfyrwyr (SUSS). Mae'r ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr yn fodlon bod ganddo'r cyllid i gwrdd â'r rhwymedigaethau i'r gronfa wrth iddynt ddod yn ddyledus dros oes y cynllun adfer diffyg wedi'i gynllunio hyd at 2037.

# Ymddiriedolwyr 2023-24

## Ymddiriedolwyr Sabothol

**Llywydd Undeb y Myfyrwyr:**
Madison Hutchinson
(o 1af Gorffennaf 2024)

**Llywydd Undeb y Myfyrwyr:**
Angie Flores Acuña
(i 30ain Mehefin 2024)

**IL Cymdeithasau a Gwirfoddoli:**
Eve Chamberlain
(o 1af Gorffennaf 2024)

**IL Cymdeithasau a Gwirfoddoli:**
Madison Hutchinson
(i 30ain Mehefin 2024)

**IL Chwaraeon a Llywydd yr UA:**
Georgia Spry
(o 1af Gorffennaf 2023)

**IL Myfyrwyr Rhyngwladol (Addysg a Lles):**
Ana Nagiel Escobar
(o 1af Gorffennaf 2024)

**IL Parc y Mynydd Bychan (Addysg a Lles):**
Shola Bold
(o 1af Gorffennaf 2024)

**IL Parc y Mynydd Bychan (Addysg a Lles):**
Alex Meers
(i 23ain Chwefror 2024)

**IL Myfyrwyr Ôl-raddedig (Addysg a Lles):**
Micaela Panes
(o 1af Gorffennaf 2023)

**IL y Gymraeg:**
Catrin Edith Parry
(o 1af Gorffennaf 2024)

**IL Iaith, Cymuned, a Diwylliant Cymru:**
Deio Siôn Llewelyn Owen
(i 30ain Mehefin 2024)

**IL Myfyrwyr Israddedig (Addysg a Lles):**
Noah Russell
(i 30ain Mehefin 2024)

## Ymddiriedolwyr sy'n Fyfyrwyr

Courtney Endall
(i 26ain Chwefror 2024)

Michael Summers
(i 2il Chwefror 2024)

Emilia Parker
(o 12fed Mehefin 2024)

Edward Bright
(o 12fed Mehefin 2024)

## Ymddiriedolwyr a Enwebwyd gan y Brifysgol

Jayne Sadgrove

Agnes Xavier-Phillips

## Ymddiriedolwyr Allanol

Elliot Howells

Ray Singh CBE

Sian Davies
(o 12fed Mehefin 2024)

## Staff Uwch Dîm Rheoli

**Prif Weithredwr:**
Daniel Palmer

**Dirprwy Brif Weithredwr:**
Raechel Mattey

**Cyfarwyddwr Cyllid:**
Jan Boyce

**Cyfarwyddwr Menter:**
Phil Dayment

**Cyfarwyddwr Cyfranogiad a Diogelu:**
Steve Wilford

**Swyddfa gofrestredig**
Plas y Parc, Caerdydd, Cymru.
CF10 3QN

**Rhif Cwmni Cofrestredig:**
07328777

**Rhif Elusen Gofrestredig:**
1137163

Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd